

Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Lle mae risg o niwed neu gamdriniaeth wedi'i hymchwilio a'i chadarnhau, rhaid cytuno ar gynlluniau i fynd i'r afael â'r risg ar frys o fewn fframwaith amlasiantaeth. Er bod rhaid i'r ffocws cychwynnol fod ar sicrhau diogelwch tymor byr, rhaid mynd i'r afael ag amcanion therapiwtig hefyd. Bydd y rhain yn cynnwys amlygu'r cynllun gweithredu lleiaf niweidiol yn y tymor byr a chynllunio dulliau adferol, lle bo hynny'n bosibl, yn y tymor hwy. Mae'r safon hon yn cwmpasu'r meysydd hyn yng nghyd-destun gwaith amlddisgyblaethol cydweithredol.

Meini prawf perfformiad

Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:

- P1 dadansoddi, o ganlyniad **ymchwiliad**, gradd y risg i unigolyn, i'w r(h)wydwaith uniongyrchol neu estynedig, neu i'r gymuned
- P2 cydweithio â'r unigolyn, y rhai sy'n agos ato/ati, cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol o ddisgyblaethau eraill i lunio cynllun a fydd yn amddiffyn yr unigolyn, y rhai yn ei r(h)wydweithiau a'r gymuned
- P3 cynorthwyo'r unigolyn i gyfrannu cymaint â phosibl at y broses gynllunio
- P4 trafod cytundeb ar y cynllun gweithredu lleiaf rhwystrol a lleiaf niweidiol a fydd yn cynnig diogelwch tymor byr o ran y risgiau a amlygwyd
- P5 datblygu cynllun therapiwtig tymor hir i adfer neu barhau i ddarparu diogelwch
- P6 adolygu cynlluniau gydag eraill ar adegau cytûn
- P7 gwneud newidiadau i'r cynllun mewn ymateb i daflywbr yr ymyriad mewn ymgynghoriad ag eraill
- P8 llunio cofnodion ac adroddiadau proffesiynol i ddogfennu cynlluniau, cynnydd, newidiadau i gynlluniau, a chanlyniadau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

- K1 deddfwriaeth ryngwladol, ei pherthynas â **pholisïau**'r DU ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K2 deddfwriaeth y DU, ei pherthynas â **pholisïau** cenedlaethol ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K3 deddfwriaeth genedlaethol, ei pherthynas â **pholisïau** ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K4 codau, safonau, fframweithiau ac arweiniad statudol a phroffesiynol; eu perthynas â pholisi ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K5 nodweddion y wlad gartref, ei hiaith, diwylliant, daearyddiaeth ac arferion
- K6 damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o faterion cymdeithasol o safbwyntiau seicolegol, cymdeithasegol a throsedddegol
- K7 beirniadaethau ar sail damcaniaethau ac ymchwil ar y berthynas rhwng deddfwriaeth, **polisïau** ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K8 gwaith cymdeithasol fel proffesiwn, gan gynnwys adroddiadau hanesyddol a materion cyfoes
- K9 natur, rôl a gorchymyn y berthynas gwaith cymdeithasol, gan gynnwys ffiniau proffesiynol a moesegol
- K10 egwyddorion, damcaniaethau, dulliau a modelau o ymyriad ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K11 **ffactorau** sy'n gyffredinol yn cael eu cysylltu ag ymglymiad gwaith cymdeithasol
- K12 eich cefndir, profiadau ac arferion eich hun a all effeithio ar eich ymarfer gwaith cymdeithasol
- K13 egwyddorion asesu risg a rheoli risg
- K14 technegau datrys problemau a meddwl arloesol
- K15 egwyddorion rheoli gwrthdaro
- K16 natur gwrthdaro ac effaith ôl-gwrthdaro ar y gymdeithas
- K17 gweithio yn eich sefydliad: egwyddorion, gweithdrefnau ac ymarferion proffesiynol
- K18 gofynion ffurfiol ar gyfer prosesau cyfreithiol a phrosesau allanol eraill

- K19 diben gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill
- K20 cylch gwaith, swyddogaethau, ethos a chyfrifoldebau disgyblaethau a sefydliadau sy'n ymglymedig â gwaith amlddisgyblaethol
- K21 cyd-destun diwylliannol ac ieithyddol yr unigolyn, y teulu, y grŵp neu'r gymuned
- K22 gweithdrefnau amlddisgyblaethol a sefydliadol lleol ar gyfer ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth
- K23 mathau o niwed neu gamdriniaeth
- K24 dangosyddion niwed neu gamdriniaeth posibl
- K25 nodweddion cyffredin ymddygiad cyflawnwyr
- K26 dangosyddion gelyniaeth, gwrthwynebiad neu ddiffyg cydymffurfio cudd
- K27 grym a chyfrifoldebau cyfreithiol a statudol y gellir eu defnyddio er mwyn diogelu unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau
- K28 amrywiaeth yr adnoddau sydd ar gael o fewn rhwydweithiau anffurfiol, yn y gymuned ehangach, trwy ddarpariaeth gwasanaeth ffurfiol, a thrwy arloesedd
- K29 sut i fynegi gwybodaeth ysgrifenedig yn gywir, yn eglur, yn berthnasol ac â lefel briodol o fanylion
- K30 gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cofnodi gwybodaeth a llunio adroddiadau
- K31 gofynion cyfreithiol, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth
- K32 egwyddorion ymarfer myfyriol, meddwl beirniadol a dysgu
- K33 sut a phryd i fanteisio ar gymorth anffurfiol wrth ymarfer
- K34 ffynonellau o adborth a all lywio myfyrio ar ymarfer a meddwl beirniadol

Gwybodaeth Ychwanegol

Cwmpas/ystod

Ymarfer gwaith cymdeithasol gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau, mewn ystod eang o gyd-destunau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol statudol ac anstatudol, datblygu cymunedol, cyfiawnder troseddol a lles addysgol

Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â meini prawf perfformiad

Gall yr **ymchwiliad** fod wedi bod yn unrhyw ymchwiliad ffurfiol, fel ymchwiliad amddiffyn plant, ymchwiliad oedolion bregus, asesiad iechyd meddwl, asesiad prawf, ymchwiliad troseddol

Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Gall **polisiau** gynnwys rhai sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol, diogelu, ail-leoli/atgyfannu yn y gymuned, cyfiawnder troseddol, mudo a cheisio lloches, addysg, iechyd, tai, budd-daliadau lles, amrywiaeth, gwahaniaethu a hybu annibyniaeth ac ymreolaeth oedolion, plant, teuluoedd, grwpiau a chymunedau
Gall **ffactorau** gynnwys camddefnyddio sylweddau; iechyd meddwl; eiddilwch; salwch corfforol; anabledd corfforol; anabledd dysgu; anghenion synhwyraidd; mudo a cheisio lloches; tlodi; oedolion neu blant mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth; plant mewn angen; anawsterau sy'n ymwneud ag addysg; statws grŵp ethnig neu grŵp lleiafrifol arall; ymddygiad troseddol; diogelu'r cyhoedd

Gwerthoedd

Glynu wrth y codau ymarfer rheoleiddiol sy'n gymwys i weithwyr cymdeithasol, a'r gwerthoedd sydd wedi cael eu mewnosod ynddynt

Sgiliau

- 1 Cynllunio camau gweithredu i gyflawni canlyniadau canfyddedig
- 2 Cyfathrebu mewn modd agored, cywir a dealladwy
- 3 Addasu cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd
- 4 Hwyluso defnydd pob unigolyn o iaith a dull cyfathrebu dewisol
- 5 Cynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion, teuluoedd, gofawyr, grwpiau a chymunedau
- 6 Gweithio'n effeithiol gyda'r rheiny sydd â safbwyntiau neu werthoedd sy'n gwrthdaro â'ch rhai chi
- 7 Trafod gydag eraill i gyflawni cytundeb mewn sefyllfaoedd cymhleth
- 8 Herio eraill, lle bo angen, mewn ffyrdd sy'n debygol o gyflawni newid
- 9 Cymhwyso meddwl beirniadol i wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau
- 10 Dadansoddi a chyfosod gwybodaeth gymhleth
- 11 Cymhwyso meddwl creadigol i ddatrys problemau cymhleth
- 12 Llunio barn broffesiynol ynghylch sefyllfaoedd cymhleth
- 13 Defnyddio eich sgiliau rhyngpersonol a sgiliau a gwybodaeth arall fel adnodd
- 14 Cymhwyso ymagweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- 15 Cydbwysu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn â lles pobl eraill
- 16 Ymarfer pendantrwydd, grym ac awdurdod mewn ffyrdd sy'n gydnaws â gwerthoedd gwaith cymdeithasol
- 17 Llunio cofnodion ac adroddiadau sy'n bodloni safonau proffesiynol
- 18 Cael mynediad at systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'u defnyddio i gasglu, storio a lledaenu gwybodaeth
- 19 Cael mynediad at oruchwyliaeth a chymorth proffesiynol a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i'ch gwybodaeth neu'ch profiad chi

Cysylltiadau â SGC eraill

Mae'r SGC hon yn cysylltu'n agos â:

SCD SW 13 Ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth

SCD SW 14 Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion tymor byr a thymor hwy

SCDSW16

Cytuno ar gynlluniau lle mae risg o niwed neu gamdriniaeth

SCD SW 15 Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb

Cysylltiadau Allanol

Mae'r SGC hon yn cysylltu â chodau ymarfer rheoleiddiol sy'n berthnasol i weithwyr cymdeithasol.

SCDSW16

Cytuno ar gynlluniau lle mae risg o niwed neu gamdriniaeth

Datblygwyd gan Sgiliau Gofal a Datblygu

Rhif y fersiwn 1

Dyddiad cymeradwyo HYDREF 2011

Dyddiad adolygu mynegol EBRILL 2014

Dilysrwydd CYFREDOL

Statws GWREIDDIOL

Sefydliad gwreiddiol Sgiliau Gofal a Datblygu

URN gwreiddiol SW16

Galwedigaethau perthnasol Gweithiwr Cymdeithasol

Cyfes GWAITH CYMDEITHASOL

Allweddeiriau GWAITH CYMDEITHASOL; YMARFER; GWYBODAETH; TYSTIOLAETH